Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Y Gelli

Safle'r Gelli
Ffordd Bethel
Caernarfon
LL55 1DU

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2026

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Y Gelli

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin y Gelli |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Daniel Doughty |
| Person â gofal | Mari Hughes a Dawn Owen |
| Nifer y lleoedd | 26 |
| Ystod oedran y plant | 2 i 11 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 15 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 9 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Gwener 9yb tan 6yh |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg ac yn gwneud pob ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Dyma'r arolygiad cyntaf ar ôl cofrestriad newydd. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Ionawr 2017 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 10/02/2026 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod datblygiad medrau'r plant yn ffurfio prif ffocws pob cynllun gwella.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae gan bron bob plentyn lais cryf, a gwnânt ddewisiadau a phenderfyniadau'n hyderus wrth chwarae. Er enghraifft, maent yn dewis caneuon i ganu, i chwarae tu fewn neu du allan a sgwrsio am eu hoff bethau. Maent yn mwynhau'r rhyddid i symud o amgylch yr ardaloedd dysgu ac maent wrth eu boddau yn dewis adnoddau gan fod ganddynt amser a mynediad i'r holl ardaloedd chwarae. Mae dymuniadau'r plant yn cael eu parchu gan ymarferwyr.

Mae bron bob plentyn yn hapus, yn fodlon ac yn ymdopi'n dda wrth adael eu rhieni. Mae bron bob un yn gyfarwydd â'r trefniadau dyddiol ac yn cydymffurfio â'r gweithdrefnau, er enghraifft, mae'r plant yn gwybod bod angen golchi dwylo cyn amser byrbryd. Mae ganddynt berthynas bositif a chynnes gyda'r ymarferwyr, sy'n rhoi teimlad o sicrwydd iddynt. Maent yn hyderus i alw enwau'r ymarferwyr pan angen cymorth neu i ddangos yr hyn maent wedi cyflawni, sy'n dangos ymdeimlad cryf o berthyn. Mae bron bob plentyn yn ymateb yn dda i ganmoliaeth, sy'n rhoi hyder iddynt rannu eu llwyddiannau. Er enghraifft, maent yn awyddus i'r ymarferwyr i weld y gacen penblwydd maent wedi'u greu gyda thoes, ac yn ymfalchïo wrth i'r ymarferwyr werthfawrogi eu hymdrechion yn frwdfrydig.

Mae bron bob plentyn yn ymddwyn yn briodol yn ystod cyfnodau chwarae rhydd ac yn ystod gweithgareddau grŵp. Mae llawer yn rhannu adnoddau'n dda ac yn dechrau deall sut i gymryd eu tro yn llwyddiannus, er enghraifft trwy gydweithio i lenwi eitemau â dŵr yn y twba. Mae'r rhan fwyaf yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol ag ymarferwyr a'u ffrindiau. Maent yn hyderus i fynd at yr ymarferwyr i chwarae neu am gysur.

Mae bron bob plentyn yn mwynhau arbrofi ag amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae ysgogol. Maent yn mwynhau eu gweithgareddau chwarae a dysgu, ac yn chwilfrydig tra'n arbrofi a gwneud marciau â phaent wedi ei rhewi. Maent yn hyderus wrth symud o un weithgaredd i'r llall, ac yn dyfalbarhau a chanolbwyntio am gyfnodau estynedig. Er enghraifft, mae'r plant wrth eu bodd yn creu car gan gasglu a gosod eitemau amrywiol yn yr ardal allanol.

Mae'r plant yn cael dewis da o gyfleoedd chwarae rhydd yn y brif ystafell ac yn yr ardal allanol. Mae bron bob plentyn yn datblygu medrau annibyniaeth a hunangymorth da iawn, er enghraifft wrth dywallt llaeth neu ddŵr yn ofalus. Yn ogystal, mae bron bob plentyn yn defnyddio'r tŷ bach yn hyderus, ac yn golchi a sychu eu dwylo'n annibynnol.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae bron pob plentyn yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Maent yn gwrando'n astud, yn dilyn arferion yn hyderus, ac yn setlo'n dda i rythm dyddiol y lleoliad.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen cynnar, gan ddangos diddordeb yn y llyfrau sydd ar gael ym mhob ardal chwarae. Maent yn mwynhau gwrando ar straeon ac yn ymateb yn dda i eirfa fynegiannol, ddisgrifiadol, er enghraifft trwy ail-greu symudiadau mawr sy'n gysylltiedig â'r stori. Mae llawer o blant yn adnabod eu henwau yn hyderus wrth hunan gofrestru. Mae bron pob plentyn yn gwneud marciau cynnar priodol, gyda llawer yn cynhyrchu marciau ystyrlon a phwrpasol. Er enghraifft, maent yn defnyddio sialc i greu siapiau ychwanegol ar fwrdd ar ôl ymgysylltu â gêm didoli siâp awyr agored.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn dilyn cyfarwyddiadau yn gyson megis golchi dwylo neu casglu ffrwyth ar gyfer amser byrbryd. Mae medrau llafar llawer o blant yn datblygu'n dda, gyda llawer yn defnyddio brawddegau llawn ac yn gofyn cwestiynau meddylgar. Mae plant hefyd yn datblygu iaith wyddonol ac amgylcheddol yn naturiol trwy weithgareddau fel arsylwi ar rhew yn toddi neu wrth gymysgu petalau a dŵr lliw.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyfri gwrthrychau i bump a thu hwnt yn hyderus ac yn gywir, er enghraifft, cyfrif smotiau ar ddis neu gwestiynu faint o lygaid sydd gan gwmwl yn seiliedig ar stori y mae plant yn ei dilyn. Mae'r rhan fwyaf yn adnabod siapiau 2D ac yn defnyddio iaith fathemategol briodol fel mwy a mawr yn ystod chwarae bob dydd. Mae medrau didoli a pharu yn datblygu'n dda, gyda phlant yn didoli deunyddiau naturiol a siapiau yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio offer digidol yn bwrpasol ac yn effeithiol, gan gynnwys graddfeydd digidol a camera digidol yn yr ardal gartref a theganau rheoli yn yr ardal synhwyraidd.

Mae medrau corfforol y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n gryf. Maent yn dangos rheolaeth dda wrth redeg, dringo a neidio. Maent yn defnyddio ffrâm ddringo yn hyderus ac yn herio eu medrau corfforol ac yn datblygu galluoedd corfforol cadarnhaol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn rheoli medrau echddygol mân yn fedrus, er enghraifft wrth ddefnyddio ffyn glud ac offer torri ar gyfer gwneud crempogau allan o does. Mae llawer o blant yn llywio’n ofalus o amgylch rhwystrau ar y beiciau ac yn arbrofi ag offer cydbwysedd.

Mae llawer o blant yn datrys problemau yn effeithiol, er enghraifft, wrth feddwl yn greadigol am sut i fwyta crempog poeth heb anafu. Mae llawer o blant yn ymateb yn gadarnhaol i heriau bob dydd, er enghraifft dod o hyd i ddarn o ffrwyth coll. O ganlyniad

mae llawer o blant yn datblygu medrau rhesymu cadarn ac yn dangos annibyniaeth gynyddol.

Mae medrau personol a chymdeithasol plant yn datblygu'n gadarnhaol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn cymryd rhan mewn chwarae rôl ac yn creu gwaith celf bwriadus fel paentio lluniau neu ddewis y deunydd gorau i greu Sion Corn. Mae'r rhan fwyaf o blant yn rheoli eu hemosiynau gyda chefnogaeth ymarferwyr. Maent yn dangos annibyniaeth dda wrth ddewis eu gweithgareddau eu hunain a rheoli eu hanghenion personol yn hyderus. Trwy gynllunio ar gyfer dathliadau, gweithgareddau ac ymwelwyr arbennig trwy gydol y flwyddyn, mae ymwybyddiaeth o amrywiaeth ddiwylliannol llawer o blant yn datblygu'n dda. Mae medrau ieithyddol y plant yn cael ei hyrwyddo’n effeithiol yn y Gymraeg. Mae’r lleoliad yn sicrhau bod y Gymraeg ar gynnig yn rhagweithiol.

## Gofal a datblygiad:  Da

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn gweithredu polisïau priodol i hyrwyddo iechyd a lles y plant yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo bwyta’n iach ac yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu plant ag alergeddau. Maent yn hyrwyddo gweithgareddau ymarfer corff yn llwyddiannus ac yn sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd cyson i dreulio amser tu allan yn yr awyr iach. Maent yn rhannu negeseuon diogelu gyda'r plant wrth iddynt ddringo y wal dringo a defnyddio’r llithren. Mae gan bron bob ymarferwr dystysgrifau cyfredol ar gyfer cymorth cyntaf pediatrig, hylendid bwyd a diogelu plant. Maent yn defnyddio’r arferion o’u hyfforddiant ar ddiogelu yn effeithiol ac maent yn hyderus am y gweithdrefnau cywir i’w dilyn pe byddai ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Mae ymarferwyr yn cadw cofnodion cywir am ddigwyddiadau yn y lleoliad. Er enghraifft, maent yn sicrhau bod rhieni’n arwyddo i dystio’u bod yn ymwybodol o unrhyw ddamwain, digwyddiad neu foddion sydd wedi ei weinyddu. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn gweithredu prosesau cadarn er mwyn atal lledaenu heintiau. Er enghraifft, maent yn annog y plant i olchi eu dwylo fel bo angen ac yn dilyn arferion effeithiol wrth drin bwyd a newid cewynnau. Mae ymarferwyr yn gweithredu systemau asesu risg ac yn cwblhau gwiriadau dyddiol i adnabod a lleihau risgiau.

Mae’r ymarferwyr yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad y plant yn effeithiol. Maent yn sicrhau bod y plant yn gartrefol ac yn hapus, gan drafod cyfleoedd dysgu  pan yn briodol. Mae llais y plant yn gryf yn y broses o gynllunio gweithgareddau, gan  sicrhau fod yr hyn sydd yn cael ei ddarparu yn datblygu amrywiaeth o sgiliau'r plant. Maent yn gwrando ar lais y plentyn yn ddiflino, gan fod yn sensitif i’w anghenion a manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu eu geirfa wrth iddynt chwarae. Er enghraifft drwy drafod maint, lliw, a niferoedd wrth arbrofi yn y twba dŵr.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda. Maent yn cydweithio’n agos â rhieni pan mae plant newydd yn cychwyn, gan sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth gadarn o’u hanghenion a’u hoffterau unigol. Mae prosesau effeithiol yn sicrhau bod ymarferwyr yn cefnogi’r plant yn llwyddiannus gan gynnwys y plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Er enghraifft, maent yn ymateb yn sensitif i blant sy’n dewis peidio â chymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp. Maent yn asesu ystod o fedrau’r plant ac yn ymwybodol o'u camau datblygu nesaf.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae ymarferwyr yn cynllunio’n effeithiol gan ddefnyddio gwybodaeth werthfawr i lywio’r ddarpariaeth, sy’n cyd-fynd â Chwricwlwm i Gymru. Maent yn casglu asesiadau cychwynnol cadarn ac yn defnyddio cyfraniadau rhieni i lywio’r cynllunio. Defnyddir canfyddiadau arsylwadau i adlewyrchu’n gyson anghenion a diddordebau pob plentyn, megis patrymau chwarae, er mwyn cynllunio camau nesaf. Mae ymarferwyr yn cofnodi cyflawniadau arwyddocaol yn bwrpasol, gan ddangos cynnydd clir dros amser.

Mae ymarferwyr yn cefnogi llythrennedd, iaith a chyfathrebu drwy greu amgylchedd cyfoethog lle mae rhyngweithiadau’n gyson ac yn ystyrlon. Maent yn defnyddio llyfrau sydd wedi’u dewis yn ofalus i gyflwyno geirfa newydd ac i annog plant i ffurfio brawddegau. Mae staff yn darparu cyfleoedd pwrpasol i blant ddechrau wneud marciau cynnar a datblygu iaith chwarae rôl. Mae ymarferwyr yn ymateb yn hyblyg i ymholiadau plant ac yn addasu cynlluniau pan fo angen, megis creu “potions” neu rewi dŵr ar ôl darllen am Sioni Rhew. Trwy gwestiynau agored, mae’r plant yn cael i gefnogi i ddatblygu medrau meddwl a rhesymu.

Mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau’n ofalus i feithrin medrau rhifedd cynnar plant, sydd wedi eu hymgorffori’n naturiol mewn trefniadau dyddiol a chwarae. Maent yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ddefnyddio iaith fathemategol, er enghraifft wrth wneud cymariaethau pan yn chwarae yn y dŵr y tu mewn a’r tu allan. Mae cyfleoedd i archwilio cysyniadau mathemategol hefyd, fel trefnu siapiau a gweithgareddau ymarferol yn yr awyr agored.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau digidol y plant yn llwyddiannus. Defnyddir offer digidol, fel graddfeydd digidol a theganau rheoli o bell, gyda modelu clir o’u defnydd pwrpasol.

Mae’r amgylchedd dysgu yn ddiogel, yn ysgogol ac yn gartrefol, gan feithrin ymdeimlad cryf o les ac ymglymiad. Mae gweithgareddau megis gofalu am blanhigion, defnyddio’r gegin fwd a gweithio gyda deunyddiau naturiol yn hyrwyddo chwilfrydedd a chyfrifoldeb, tra bo ymweliadau â gardd y gymuned yn datblygu gwerthfawrogiad y plant o ofalu am fywyd ac am yr amgylchedd.

Mae'r amgylchedd feithringar hwn yn cefnogi datblygiad cymdeithasol, moesol ac ysbrydol y plant. Mae'n eu galluogi i ddatblygu empathi, cydweithredu a pherthnasoedd cadarnhaol, er enghraifft drwy arddangos lluniau o ffrindiau'n gofalu am ei gilydd a thrwy fodelu cymryd tro wrth arllwys dŵr.

Mae ymarferwyr hefyd yn hybu dealltwriaeth a thrafodaethau syml am amrywiaeth ddiwylliannol a ieithyddol, gan feithrin parch a moesoldeb. Mae adnoddau fel llyfrau, jig-so a doliau amrywiol yn cefnogi hyn ymhellach ac yn annog plant i sylwi ar wahaniaethau, trafod tebygrwydd ac adeiladu empathi. O ganlyniad, mae'r plant yn dangos parch, empathi a thegwch tuag at eraill.

Mae gan ymarferwyr ddisgwyliadau uchel ar gyfer pob plentyn ac maent yn deall eu rôl yn glir wrth gefnogi dysgu. Mae arweinwyr yn trefnu staff yn effeithiol fel bod gan ymarferwyr amser rheolaidd i arsylwi a chynllunio camau nesaf yn ofalus. Trwy ddangos barn gadarn ynghylch pryd i ymyrryd a phryd i gamu'n ôl, mae ymarferwyr yn galluogi plant i ymgysylltu'n ddwfn ac i arwain eu dysgu eu hunain.

Mae'r ymarferwyr yn rhoi pwyslais cryf ar y broses ddysgu yn hytrach na'r cynnyrch terfynol. Mae arddangos gwaith y plant yn adlewyrchu'r broses greadigol, gan ddathlu unigoliaeth, ymdrech a datblygiad drwy chwarae.

## Yr amgylchedd: Da

Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd addas, diogel a glân ar gyfer y plant. Maent yn sicrhau bod ganddynt fesurau cadarn o ran mynediad diogel i'r adeilad a bod cofnodion ymwelwyr yn eu lle. Mae gweithdrefnau cynnal a chadw'r lleoliad yn effeithiol. Mae arweinwyr yn cwblhau asesiadau risg cynhwysfawr sy'n amlinellu'r camau i'w cymryd i leihau neu atal risg i blant. Mae ymarferion tân yn cael eu cwblhau'n rheolaidd a'u cofnodi'n drylwyr. Maent yn cadw cofrestr presenoldeb ar gyfer plant ac ymarferwyr, ac yn sicrhau bod cymarebau ymarferwyr i blant yn gywir ar bob adeg. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr hysbysfwrdd gwybodaeth yn darparu manylion clir a chynhwysfawr am ymarferwyr, polisïau a gweithdrefnau diogelu.

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd groesawgar a chartrefol sy'n sbarduno chwarae'r plant yn effeithiol. Mae'r amgylchedd dysgu a chwarae o safon uchel sydd yn ysgogol ac yn cynnig cyfleoedd cyfoethog i blant archwilio tu mewn a thu allan.. Mae arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn meithrin ymdeimlad o berthyn drwy arddangos esiamplau o'u gwaith, lluniau ohonynt yn ystod eu chwarae o fewn y lleoliad, yn y gymuned gyfagos ynghyd â ffotograffau o'u teuluoedd.

Maent wedi trefnu'r ystafell chwarae yn addas gydag ardaloedd dysgu pwrpasol sy'n hybu datblygiad y plant. Mae ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd rheolaidd i blant ddefnyddio'r gofod chwarae yn yr awyr agored i ddatblygu eu medrau creadigol a chorfforol yn

llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r gegin fwd isel yn cynnig adnoddau naturiol fel pridd, dŵr a mes ynghyd ag offer coginio iawn, sy'n hyrwyddo profiadau dysgu'r plant yn fwriadus. O ganlyniad, mae arweinwyr yn gwneud defnydd da o'r holl ardaloedd i ddarparu gweithgareddau dysgu cyffrous, a chânt eu defnyddio'n hyderus gan y plant.

Mae arweinwyr yn sicrhau y gall y plant gael mynediad at amrywiaeth eang o ddodrefn, teganau ac offer sy'n briodol o ran eu hoedran ac o ansawdd da. Er enghraifft, mae basgedi a silffoedd agored i'r plant ymchwilio a llawer o ddodrefn naturiol ac o'r cartref ar gael. Mae dewis addas o adnoddau er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o amrywiaeth a ddiwylliannau gwahanol. Maent hefyd yn sicrhau gweithgareddau er mwyn hybu dealltwriaeth y plant o ddathliadau diwylliannol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae gan arweinwyr ddatganiad o bwrpas clir sy'n rhoi gwerth yn gyson ar gyfraniadau rhieni, gweithwyr proffesiynol a staff. Mae hyn yn cryfhau eu dealltwriaeth o arfer effeithiol ac o feysydd i'w datblygu. Mae arweinwyr yn cyflawni eu dyletswyddau rheolaethol yn llwyddiannus ac yn rhoi prosesau hunanwerthuso defnyddiol ar waith, sy'n rhoi darlun cywir iddynt o gryfderau'r lleoliad a beth sydd angen ei gryfhau. Maent yn ymateb yn dda wrth nodi a gweithredu ar flaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae'r ethos gydweithredol hwn yn sail i gynllunio pwrpasol, cyfarfodydd rheolaidd a newid parhaus. Fodd bynnag, mae arweinwyr yn dueddol o gynllunio camau gweithredu ar gyfer addasu a gwella'r ddarpariaeth, heb ystyried yr effaith ar ddatblygiad medrau plant yn ddigonol. Mae newidiadau cadarnhaol i'r amgylchedd dysgu wedi cael effaith bositif ar les plant a staff, gyda bron pob un plentyn yn ymgartrefu'n gyflym ac ymarferwyr yn adrodd eu bod yn teimlo'n fwy hamddenol o fewn yr ardaloedd diwygiedig. Mae addasiadau i weithdrefnau asesu wedi dyfnhau dealltwriaeth ymarferwyr o batrymau chwarae a diddordebau plant, gan arwain at blant yn ymddangos lefel ymgysylltu da.

Mae arweinwyr yn trefnu cyfarfodydd staff rheolaidd a goruchwyliaeth gyson sy'n cyfrannu at ddiwylliant ble mae ymarferwyr yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Anogir datblygiad proffesiynol, ac mae arweinwyr yn chwarae rôl weithredol wrth feithrin hyder a medrau ymhlith y staff. Mae arweinwyr yn defnyddio cyllid grant yn bwrpasol, gan arwain at welliannau ystyrlon megis offer dringo newydd a lloriau wedi'u diweddaru y tu mewn a'r tu allan. Mae'r datblygiadau hyn wedi cynyddu hyder ac ymgysylltiad plant o fewn yr amgylchedd ysgogol. Mae polisïau'n gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n briodol, ac mae'r lleoliad yn cydymffurfio â gofynion AGC.

Mae trefniadau staffio'n cael eu rheoli'n effeithiol. Mae'r person â gofal yn sicrhau digon o ymarferwyr cymwys ac mae'r defnydd o ymarferwyr yn diwallu anghenion plant yn dda. Mae ymatebion rhieni'n hynod o gadarnhaol, ac mae polisi drws agored effeithiol yn cefnogi ymgysylltiad parhaus cryf. Mae gwaith partneriaeth yn gryf ac yn cyfoethogi

profiadau plant. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn teimlo’n rhan o’u cymuned leol. Maent yn cymryd rhan yn yr ardd gymunedol, ymweliadau â chartref i weld yr henoed, ac yn croesawu ymwelwyr megis y frîgad dân a meddyg, sy’n codi ymwybyddiaeth y plant o wahanol fathau o swyddi ac y byd o’u cwmpas.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol/Prysg (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/04/2026